

	Targed	Yr hyn yr wyf wedi'i wneud yn yr aseiniad hwn.
Targed 1	Defnyddio ystod eang o ffynonellau, yn cynnwys dogfennau cwricwlaidd, i'ch helpu i ddadansoddi'r testun o dan sylw yn feirniadol.	Dwi wedi ceisio defnyddio ystod eang o ffynonellau gan ganolbwyntio ar ddogfennau cwricwlaidd lleol a cenedlaethol Cymru.
Targed 2	Mireinio eich sgiliau cyfathrebu, e.e. amser cywir y ferf-berfau cryno.	Dwi wedi sicrhau fy mod yn rhedeg fy merfau yn unol ag amser cywir y ferf gan wneud synnwyr o'r frawddeg.

Sut mae ysgol yn datblygu un agwedd ar ei Chynllun Datblygu Ysgol: adroddiad sy'n adfyfyrio'n feirniadol ar y camau gweithredu, yr effaith a'r sylfaen dystiolaeth

Rhagarweiniad

Adroddiad yw hon sy'n adfyfyrio'n feirniadol ar y camau gweithredu, yr effaith a'r sylfaen dystiolaeth o sut mae'r ysgol hon yn datblygu un agwedd ar ei Chynllun Datblygu Ysgol (CDY). Yr agwedd y penderfynwyd ffocysu arni yw: *datblygu gallu dysgwyr i fynegi eu hunain yn effeithiol mewn gwahanol ffurfiau/lleoliadau drwy'r Gymraeg gan roi'r ffocws ar gywirdeb a chyfoeth llafar y disgyblion.*

Lleolwyd yr Ysgol ym mhentref bychan yng ngogledd Sir Benfro ac fe wasanaethwyd dalgylch eang gwledig. Ysgol Gynradd Gymraeg ydyw gydag oddeutu 176 disgybl rhwng 3 ac 11 oed. Cymraeg, yw prif gyfrwng bywyd a gwaith yr ysgol a gyda'r mwyafrif o'r disgyblion yn tarddu o gartrefi unol Cymreig. Mae tua 7.5% dros dreigl tair blynedd o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n swm sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Derbynia'r ysgol ddisgyblion o'r ystod lawn o allu, gyda 19% ohonynt wedi'u hadnabod ag anghenion dysgu ychwanegol, sy'n agos i'r cyfartaledd cenedlaethol o 21% (Llywodraeth Cymru (LIC, 2018).

Adolygiad Llenyddiaeth

"School Development Planning is an ongoing process that

*helps schools to meet the dual challenge of enhancing
quality and managing change”*

(Llywodraeth Iwerddon, 1999).

Cynigai'r CDY weledigaeth o ble y gobeithiant fynd a'r hyn y gobeithiant gyflawni. Seiliwyd ar ddadansoddiad o lefelau perfformiad, asesiad o dueddiadau cyfredol ac effaith ffactorau'r dyfodol ar yr ysgol (Department of Education, 2007). Fe ymgymerau bob ysgol â nifer o brosiectau parhaus ac fe'u cydnabuwyd fel blaenoriaethau/targedau arwyddocaol datblygedig (LIC, 2014).

Noda Barbour (2014) ei bod yn amhosibl mynd i'r afael â'r holl feysydd yn enwedig eu holrhain a'u monitro. Cydnabyddai Hanover (2014) y profa anwybyddu ambell faes er mwyn canolbwyntio ar gynifer yn her. Serch hyn, dywed Park *et al* (2013) fod temtasiwn gan nifer o ysgolion i ychwanegu amcanion ychwanegol. Fodd bynnag, awgryma Darling-Hammond (2019) fe ganiateir y broses i'r ysgolion fynd i'r afael â phob maes, dros dreigl amser – wrth gyflawni amcanion blynyddol, gellir adolygu cynlluniau'n gyson a chyflwyno targedau newydd i'w hymdrechion o ddatblygu. Noda Barbour (2014) tu ôl i'r system ailadroddus hon, ymddengys llwyddiant yr amcanion cychwynnol gan gataleiddio enillion meysydd datblygu eraill.

Dadleua Park *et al* (2013) y cyniga'r CDY ddefnydd disgybledig o ddulliau meintiol ac ansoddol seiliwyd ar dystiolaeth, i wella effeithiolrwydd, ecwiti, amseroldeb a diogelwch y systemau gan ddarparu gwasanaeth parhaus. Disgrifia Bezzina (1999) ysgol heb gynllun yn debyg i gwch heb lyw. Noda Park *et al* (2013) anela'r CDY at welliant parhaus drwy leihau'r bwlch rhwng lefel perfformiad cyfredol yr ysgol a'i gwir photensial. Ofna nifer y datblyga'r cynllun yn fwyfwy cymhleth gan arwain at fygu cyflawniad a thwf academiaidd (Schmoker, 2014).

Anelai'r CDY at arwain yr ysgol gyfan i ddatblygu a gwella, drwy archwilio cysyniadau datblygu, colegoldeb ac arfarnu gan sicrhau cynllun effeithiol (Berwick, 2001). Barnwyd mai cyfranogiad rhieni, staff a disgyblion yw'r ffactor pwysicaf drwy sicrhau y cyrhaedda'r ysgol y safon uchaf (Department for Education (DfE), 2011). Noda Poster a Day (2018) drwy gydberchnogaeth cryfha anogaeth, ac fe'i hymestynnir tu hwnt i'r broses gynllunio i weithrediad y weithgaredd.

Cymraeg yw iaith bywyd bob dydd yr ysgol ar gyfer cyfathrebu. Serch hyn, argymhellir Estyn (2018) mewn adroddiad diweddar bod angen cynyddu defnydd o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol. Wrth ffocysu ar yr agwedd hon, rhaid ystyried effaith y Gymraeg yn yr

ysgol yn ogystal â thu hwnt. Noda Cynulliad Cymru (2017) y dylai pob disgybl 3 i 16 oed yng Nghymru astudio'r Gymraeg, naill ai fel iaith gyntaf neu eu hail iaith. Profa'r agwedd hon yn bwysig am y noda Jones (2016) mai ond 16% o ddisgyblion Cymru sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg ac yn astudio'r Gymraeg. Serch hyn, pwysleisia'r Cyngor Gweithlu Addysg (2019) bod addysg Gymraeg yn un peth ond, mae sicrhau ei ddatblygiad tu hwnt yn agwedd arall sydd angen ei ddatblygu.

Oherwydd cydnabyddiaeth LIC o ddibris yr iaith Gymraeg, gorfodwyd iddynt asesu'r galw am addysg Gymraeg yng Nghymru. Gwnaed hyn drwy lansio Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn 2010 ac yn ddiweddarach gwnaed yn ddyletswydd gan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgol (Cymru) yn 2013. Gosodai'r ddeddf ddyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i baratoi a chyflwyno Cynllun Strategol Addysg Gymraeg, gyda'r gobaith o: wella'r ddarpariaeth Gymraeg; annog dilyniant ieithyddol cadarn o un cam i'r llall; a chyfrannu at gaffael ac atgyfnerthu sgiliau Cymraeg tu hwnt i furiau'r ysgol (LIC, 2017c).

Cydnabuwyd bod gan y sector addysg gyfraniad allweddol er mwyn cyflawni eu gweledigaeth o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Adlewyrcha hyn yr angen am ymrwymiad LIC i ailwampio addysg Gymraeg, ar angen i hyrwyddo diwylliant Cymru a'i hiaith o fewn ethos yr ysgol wrth iddo ddatblygu (Jones, 2016). Galluoga hyn i bobl ifanc ddefnyddio'u sgiliau addysgiadol Gymraeg yn y gymdeithas ehangach. Ymatebant drwy gyhoeddi cynllun 'Ffyniant i Bawb' (2017) i sicrhau y medra pob dysgwr ddefnyddio'r Gymraeg tu hwnt i'r ystafell ddosbarth (LIC, 2017b).

Dadleuwyd fod yr ymyrraeth yma'n rhy hwyr. Cyhuddwyd Gweinidog Addysg LIC yn 2015 o beidio ymyrryd pan nad oedd Cyngorau Sir yn ateb y galw am addysg Gymraeg (Golwg360, 2015). Arweiniwyd y diffyg sylw hwn i bryder yn nefnydd yr iaith Gymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol, cymaint nes i nifer ddewis astudio yn Lloegr (Roberts, 2015). Fodd bynnag, yn ddiweddarach camau'r Llywodraeth i sicrhau datblygiad yr iaith Gymraeg, ond dywed Owen (2017), fydd angen cymryd camau brys i ddatblygu'r ewyllys da hwn yn realiti pendant. Serch hyn, dengys ei ymchwil nad gorfodi yw'r ateb, ond yn hytrach, newid patrymau ymddygiad, wrth gydnabod rolau allweddol y cyfryngau, teulu a rhanddeiliaid tu hwnt (Dyfodol, 2017). Cydnabuwyd bod y sylfaen wedi'i sefydlu'n gadarn a bellach rhaid gweithredu drwy adeiladu ar hyn (Owen, 2017).

Datblygu pwynt gweithredu

Mabwysiadwyd y dull pump cam o gynllunio gan gynorthwyo a hogi ffocws unigolion ar ganlyniadau drwy ddatblygu arferion arweinyddol, sgiliau hyrwyddo a thanio gwelliant parhaus (ACER, 2012). Hysgoga'r dull hwn iddynt ddysgu o'u llwyddiannau a datrys eu diffygion (Woods; Brighthouse, 2013). Dywed Beauchamp (2018), er mwyn gwneud gwelliannau parhaus, mae'n ofynnol iddynt ystyried y cyd-destun gweithredol gan gytuno ar weledigaeth ysgogol a chyraeddadwy.

Wrth graffu ar flaenoriaethau blaenorol yr ysgol, gwreichiodd agwedd tebyg, sef yr angen i leihau'r bwlch rhwng safonau llafar ac ysgrifennu. Wrth hunanwerthuso'u cyrhaeddiad, penderfynwyd yng ngolau argymhellion Estyn (2018) weithredu gan gynyddu defnydd o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol. Pwysleisia Woods a Brighthouse (2013) allweddoldeb hunanwerthuso â'r gallu i egluro i ba raddau y mae'r addysg a ddarperir yn diwallu anghenion pob disgybl. Cydnabyddia'r ysgol bod ysgrifennu ychydig yn is na'r llafar yn gyson ac felly penderfynwyd, drwy godi lefel y llafar yn uwch, caiff effaith gadarnhaol ar yr ysgrifennu, gan adlewyrchu gweithrediad o safon uchel (Bennett, 2017).

Wedi hunanwerthuso, penderfynwyd datblygu'r targed hwn ar draws am yr ymddengys data *Incerts* hanesyddol bwlch cyson rhwng llafar ac ysgrifennu gan ysgogi gwelliant addysg broffesiynol eu disgyblion (*Incerts*, 2019). Serch hyn, barnwyd fod yn agwedd o bryder ers sawl blwyddyn ac adlewyrchwyd diffyg hunanwerthuso blaenorol. Wedi iddynt ymgymryd â phroses gadarn hunanwerthuso, caiff meysydd cryfder/datblygiad eu nodi a chadarnha'r broses fel offeryn i'r ysgol asesu ei pherfformiad.

Lliwiwyd hunanwerthusiad cadarn gan ddefnydd effeithiol o ddata ansoddol a meintiol (DfE, 2017). Wrth fynd ati i weithredu'r flaenoriaeth hon, cymharwyd data'r ysgol â'r Awdurdod Lleol. Aiff y mesuriad hwn â hwy i gam nesaf y dull sef penderfynu faint yn well yr hoffent fod. Dengys y data'r bwlch amlwg rhwng lefelau llafaredd ac ysgrifennu'r ysgol i'w gymharu â'r Awdurdod Lleol. Noda OECD (2014) y dylid selio'r weledigaeth ar brawf neu argymhelliant gan yr Awdurdod Lleol/Cenedlaethol. Barna Norton (2014) nad yw gweithrediad werth chweil oni bai y gweithredwyd ar y data'n gyson. Gwelir defnydd myfyriol o ddata wrth y defnyddir i fyfyrion trywydd cyn penderfynu addasu'r strategaeth (Geel *et al*, 2016).

Er ymateba'r ysgol i'r argymhelliant hwn, nid oes tegwch wrth asesu'r cyraeddiadau ar draws. Serch hyn, sicrha dilyn casgliadau a dynnir o ddata, cynnydd at dargedau personol yr ysgol (Hanover, 2014). Barna Poortman a Schildkamp (2016) ni adlewyrchwyd canlyniadau data'n syth. Dadleua Geel *et al* (2016), er mwyn gwireddu llawn botensial data, mae angen mewnwelediad clir o'r ffyrdd gorau i'w ddefnyddio.

Ystyriwyd er mwyn i'r ysgolion barhau defnyddio data, olrhain cynnydd, ac addasu mentrau, dylent hefyd ystyried arferion cyfathrebu (Hanover, 2014). Yn ôl Estyn (2017), ymgymera'r rhanddeiliaid rhan ganolog yn y broses o gyflawni nodau'r CDY drwy rannu gwybodaeth; ymgynghori a chyfranogi'n weithredol; adlewyrchu'n ased pwysig wrth godi safonau a chanlyniadau dysgwyr. Dywed Wilder (2014), cyfranogiad rhieni a'r gymuned yw un o'r isbynciau sy'n cynyddu cyrhaeddiad academiaidd mewn hyfedredd addysg ac iaith dysgwyr. Cyflwyno'r ysgol gyfres o glipiau fideo ar gyfryngau cymdeithasol er mwyn rhannu geirfa, idiomaau, dulliau rhifedd ac ati gan geisio annog datblygiad cyson tu hwnt i'r dosbarth. Adlewyrcha hyn yn gadarnhaol am y noda Harris a Goodhall (2007) y tueddir anghofio pwysigrwydd ac arwyddocâd rhanddeiliaid ym mywydau datblygedig y dysgwyr. Dywed Bubb ac Earley (2008) fod rhyngweithio rheolaidd â rhanddeiliaid drwy ymgynghoriadau yn meithrin ymddiriedaeth a chodi ymdrechion y dysgwyr a'r ysgol.

Ffurfiwyd Bwyllgor Cymreictod gan gydbblethu gweithrediad rhanddeiliaid, disgyblion a staff. Gwreiddiwyd y dysgwyr yn ganolog gan roi llais argyhoeddedig iddynt drafod materion pwysig dros yr iaith â chyrrff allanol. Barnwyd mai llais y disgybl yw persbectif unigol cyfunol yng nghyd-destun dysgu ac addysgu. Gellir newid hinsawdd addysg yn effeithiol, a chryfhau cyflawniad disgyblion gan feithrin parodrwydd (Salim, 2015). Serch hyn, tybiwyd mai'r goreuon academiaidd caiff eu dewis i siarad, sy'n fwy tebygol o rhagori. Fodd bynnag, gwneir ymdrech helaeth i gynnwys bob disgybl yn ganolog, wrth groesawu ymwelwyr ysbrydoledig a brwdfrydig Cymreig i sbarduno datblygiad parhaus.

Er mwyn gweithredu'r flaenoriaeth cynlluniwyd nifer o wahanol dasgau. Gofynna hyn i'r ysgol newid nifer o'i harferion addysgiadol er mwyn sicrhau newidiadau. Bellach, datblyga cynllunio strategol yn null cyfreithlon a daw ei ddefnydd yn un o'r ffyrdd mwyaf derbyniol i baratoi ar gyfer y dyfodol (LIC, 2014).

Gyda blagur y cwricwlwm newydd, newidiwyd ei ffordd o gynllunio gan sicrhau fod pob disgybl yn ddysgwyr uchelgeisiol galluog sy'n medru cyfathrebu mewn gwahanol ffurfiau/leoliadau yn y Gymraeg bob dydd (Donaldson, 2015).

Caniateir cynllun yr ysgol, 'Heriau/Dy-Dro-Di', i'r plant ffocysu a chyfoethogi agweddau llefareddd, darllen ac ysgrifennu. Annogir y disgyblion i ddewis/parhau gyda'r heriau'n annibynnol gan groesawu sgysiau llafar perthnasol. Darparwyd y set orau o ddangosyddion a thargedau a'i weithredu mewn amser realistig drwy wella lefel y rheolaeth a chynyddu effeithlonrwydd parhaus yr ysgol (Day; Sammons, 2016). Er i'r ymdriniaeth hon weithio'n dda ni ragwelsant/monitrwyd cynnydd cyson y disgyblion, yn hytrach, mesurwyd cyn ac ar ôl cyfnod penodedig.

Croesawyd system radio gyflwynedig er mwyn cyfoethogi a gloywi sgiliau llafar y disgyblion a'u trochi mewn iaith safonol, gan ennyn eu hyder ieithyddol wrth gyflwyno'r gystrawen gywir ar goedd gynulleidfa (LIC, 2017c). Noda LIC (2017d), heb hyder ieithyddol ni fedr cymryd rhan lawn ym mywyd a gwaith y dosbarth. Adeiladwyd hyder wrth uniaethu â'r iaith a'i fyfyrion'n ddyddiol gan adlewyrchu ar eu gwaith ysgrifenedig. Barna Ofsted (2010) mai'r camsyniad mwyaf cyffredin yw nad yw llefareddd yn adlewyrchu ar gyflawniad craidd. Dywedasant, po gynharaf y bydd disgyblion yn datblygu hyder yn eu lleferydd, y mwyaf tebygol byddant i wella'u cymhwysedd cyffredinol mewn darllen ac ysgrifennu (Ofsted, 2010).

Clustnodwyd diwrnod er mwyn myfyrion a chyfoethogi'u cynlluniau i hybu balchder dros y Gymraeg. Strwythura'r ysgol nodau gwella tymor hir yn ogystal â nodau interim tymor byr. Barna Barbour (2014) gwneir hyn nodau llawer mwy gweithredadwy drwy ganiatáu iddynt nodi camau rhesymol ac addasu ymyriadau'n unol â'u dysgwyr a'u staff. Sicrhau'r dathlant defnydd o'r iaith drwy hwyl a chystadleuaeth gan sbarduno'r meddwl mewn ffordd ddatblygedig (LIC, 2017a). Serch hyn, barnwyd fod angen parhau gyda'r brwdfrydedd hwn er mwyn sicrhau cynnydd ac adlewyrchiad academiaidd.

Adfyfyrion a gwerthuso

Adlewyrcha gweithrediad yr ysgol hon yn llwyddiannus wrth iddynt ymroi ac ymgeisio datblygu'r agwedd hyd yr eithaf drwy ymgysylltu agweddau perthnasol datblygedig realistig ar draws gontinwmm.

Canolbwyntia'r dull gweithredu 'pum cam' yn wastad ar draws bob agwedd ymglymedig gan ffocysu ar addysg unigolion; dysgu o'u llwyddiannau; a datrys problemau gan eu harwain at ddatrasiad a'u monitro (Woods; Brighthouse, 2013)

Gyda diddymu'r ffurflen werthuso ysgolion mae'n bwysicach fyth y datblygir eu proses hunanwerthuso (MacBeath; McGlynn, 2003). Wrth adfyfrio, seliwyd diwylliant hunanwerthuso ar wybodaeth gyfunol a myfyriol a chwmpasau'r prosesau o gasglu, dadansoddi a monitro tystiolaeth i farnu effeithlonrwydd wrth gynllunio/hyrwyddo gwelliant (OECD, 2013). Serch hyn, heriol fu monitro ac asesu cynnydd/datblygiad llafar bob unigolyn mewn sefyllfaoedd anffurfiol.

Wedi iddynt graffu ar ddata, penderfynwyd olrhain y datblygiad drwy geisio'i ddylanwadu i godi safon agwedd arall fel modd o fesur cynnydd. Fodd bynnag, wrth rannu'r sylw rhwng dwy agwedd, disodlwyd y ffocws gan arafu'r broses o ddatblygu (Lai; Schildkamp, 2016). Serch hyn, nid oes ateb amlwg i nifer o broblemau a wyneba ysgolion (Lai; Schildkamp, 2016). Dibynna'r broses ar ansawdd casglu tystiolaeth fel mater o drefn a diwylliant datblygedig, gan fyfrio'n feirniadol ac ymholi er mwyn sicrhau gwelliant parhaus yn unol ag anghenion yr ysgol (Education Endowment Foundation, 2017).

Barnwyd nad yw cysondeb asesu ar draws ysgolion yn realistig – mae'n annheg. Serch hyn, caniateir meincnod iddynt werthuso'u perfformiad yn erbyn ysgolion eraill i sicrhau cysondeb. Tybir fod nifer o ysgolion yn cyffredinol i'r dair agwedd ynghyd gan asesu'n unol ar draws. Awgryma Fisher *et al* (2008) bod llafar yn yr ystafell ddosbarth yn fwy na chymorth i hwyluso dysgu effeithlon yn unig. Barna o ran asesu gwybodaeth/dealltwriaeth disgyblion, rhoir llawer gormod o bwyslais ar ysgrifennu dros llafar. Fodd bynnag, adlewyrcha data'r ysgol hon i'r gwrthwyneb, a barna Bromley (2017) medr bob disgybl siarad ymhell cyn iddynt fedru darllen ac ysgrifennu. Cydnabyddir bod datblygiad llwyddiannus llythrennedd yn dibynnu ar sgiliau llafar cymwys - sgiliau ffonolegol yw sylfaen datblygiad llythrennedd (Snowling; Hume, 2012).

Manteisia'r ysgol i hybu'r Gymraeg drwy arddangos codau QR ar draws yr iard i'r disgyblion fyfrio'u hiaith amser chwarae drwy ddilyn cyfarwyddiadau gemau. Wrth fyfrio, cyfyngedig oedd yr '*i-pads*' gan bwysleisio'r angen am gysondeb asesu er mwyn mesur effaith unrhyw agwedd. Profa'r agwedd o ddysgu tu allan yn gadarnhaol wrth sbarduno addysg drwy fwynhad; gwella agweddau at ddysgu; a chynyddu ffocws tasgau ysgrifenedig drwy ganiatáu dychymyg mwy egniol (Waite, 2011). Serch hyn, argymhellwyd y byddai'n syniad newid y gemau'n aml er mwyn cynnal diddordeb.

Wrth adfyfrio, amlwg yw gweld defnydd cydweithredol lawn rhanddeiliaid yn y broses. Dengys canfyddiadau bod y berthynas bositif rhwng yr ysgol a'r rhanddeiliaid, o fewn yr ysgol a thu hwnt, yn hanfodol wrth reoli'r broses o ddatblygu (Mugenyi, 2015). Serch hyn,

dadleua DfE (2011) bod or-gynnwys rhanddeiliaid yn medru adlewyrchu'n negyddol am fod yna adegau pan fyddant yn canolbwyntio ar eu diddordebau personol gan adlewyrchu'n negyddol at weithrediad o ddatblygiad yr ysgol. Dadleua MacGilchrist a Mortimore (1997) nad oes gan bob ysgol berthynas glos, gan adlewyrchu anhawster rheoli a gweithredu'r CDY. Awgrymir, po uchaf yw lefel ymgynghoriad a chyfranogiad y rhanddeiliaid, y gorau, wrth ddatblygu atebolrwydd, gwaith tîm a'r broses o rannu cyfrifoldebau (Phillips, 1997).

Cynigai'r ysgol hon addewid sylweddol i grisialu'r materion hanfodol sy'n ei wynebu ar gyfer adeiladu consensws cymunedol gan ddarparu fframwaith gweithredu tymor byr a gweithrediad tymor hir. Serch hyn, adlewyrchai'r ymglymiad yn gostus ac yn llafurus gan gymryd amser i'w weithredu (LIC, 2014). Fodd bynnag, ymrwymwyd i'r cynllun gan weithredu buddion llwyddiannus dros dreigl amser.

Adlewyrcha'r broses o fesur effaith yn heriol wrth ystyried y dibynna ar dystiolaeth amrywiol o flwyddyn i flwyddyn, ffactorau ansawdd addysgu a dysgu blaenorol, cyfraddau presenoldeb a symudedd y dysgwyr (Masters, 2010). Wrth werthuso, un o'r problemau a godwyd yw ni adlewyrchwyd gwelliant yng nghanlyniadau'r dysgwyr yn y blynyddoedd cyntaf - ymdebygydd o ddigwydd dros gyfnod o sawl blwyddyn (Masters, 2010). O ystyried hyn, barna Masters (2010) bod angen parhau i gynnal y gwelliannau a'r strategaethau datblygu er mwyn eu cyrraedd yn y pen draw.

Er iddynt ddilyn system gweithredu llwyddiannus, noda LIC (2014) y gorfodwyd ysgolion i feddwl am syniadau newydd ar gyfer datblygu gan arwain at gynlluniau afrealistig a difrodi canlyniadau. Barnwyd y medr anwybyddu datblygiad parhaus gan ddirymu anghysondeb rhwng statws cyfredol yr ysgol a'r hyn a ddymunir (Hattie; Timperley, 2007).

Casgliad

Wrth grynhoi, amlwg oedd gweld brwdfrydedd ac annogaeth yr ysgol tuag at yr elfen lafar. Gwelsom yr elfen ganolbwyntiedig oedd gan yr ysgol ar godi canlyniadau a lefelau'r disgyblion ar draws yn hytrach na chanolbwyntio ar un elfen. Adlewyrcha'r aseiniad hwn ddyfalbarhad a gweithrediad cadarnhaol, gan sbarduno llwyddiant un agwedd ar y llall. Cydnabuir y rhoir yr ysgol gyfleoedd gorau i'w plant - credwyd, heb iaith gyfoethog nad oedd modd ysgrifennu'n raenus.

I gloi, rhaid cofio fod pob unigolyn yn unigryw a gofynnai sicrwydd cynnydd iaith pob unigolyn am gydblethiad nifer o wahanol agweddau. Fodd bynnag, medr ddatblygu'r iaith fel

continwmm yn llwyddiannus gyda'u gweithrediad. Annogir yr iaith drwy glôd a balchder gan drosglwyddo hyn i'r plant wrth iddynt ei ddefnyddio ym mywyd yr ysgol a thu hwnt.

2,749 gair.

Rhestr gyfeirnod

Assessment Foundation (2019). *Incerts Snap*. [App]. (Darllenwyd: 14 Ebrill 2020).

Barbour, C. (2014). Cyflweliad gan Hanover i'r *Education Program, American Institute*, 11 Gorffennaf 2014.

Beauchamp, A. (2018). 'A five-step research-informed CPD cycle', *SecEd*. 8 Mai. Ar gael yn: <https://www.sec-ed.co.uk/best-practice/a-five-step-research-informed-cpd-cycle/> (Darllenwyd: 7 Ebrill 2020).

Bennett, T. (2017). *Creating a Culture: How school leaders can optimise behaviour*. Ar gael yn: <https://assets.publishing.service.gov.uk/government/> (Darllenwyd: 7 Ebrill 2020).

Berwick, G, 2001, *Building Success: A school journey of improvement*, Bromley, Ravens Wood School

Bezzina, C. (1999) *Opening Doors to School Improvement: an introductory handbook*. Malta: MUT Publications.

Brighthouse, T. a Woods, D. (2013). *The A-Z of school improvement principles and practise*. London; New York: Bloomsbury Education.

Bromley, M. (2017). 'Every teacher is a teacher of literacy: Speaking and listening skills', *SecEd*, 21 Mehefin. Ar gael yn: <https://www.sec-ed.co.uk/> (Darllenwyd: 27 Mawrth 2020).

Bubb, S. a Earley, P. (2008). *From self-evaluation to school improvement: the importance of effective staff development*. Reading: CfBT Education Trust.

Cyngor Gweithlu Addysg. (2019). *Adroddiad Monitro Safonau'r Gymraeg yng Nghyngor y Gweithlu Addysg 2018-19*. Ar gael yn: <https://www.ewc.wales/site/index.php/cy/> (Darllenwyd: 4 Ebrill 2020).

Cynulliad Cymru. (2017). *Achieving the Ambition*. Ar gael yn: <https://www.cynulliad.cymru/> (Darllenwyd 3 Ebrill 2020)

Darling-Hammond, L. et al. (2019). 'Implications for educational practice of the science of learning and development', *Applied Developmental Science*, 24(2), tud 97-140.

Day, C. a Sammons, P. (2016). *Successful school leadership*. Ar gael yn: <https://files.eric.ed.gov/fulltext/ED546806.pdf> (Darllenwyd: 1 Ebrill 2020).

Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Ar gael yn: <http://www.legislation.gov.uk/welsh> (Darllenwyd: 14 Ebrill 2020).

Department for Education. (2011). *Review of best practice in parental engagement*. Ar gael yn: <https://assets.publishing.service.gov.uk/government/> (Darllenwyd: 4 Ebrill 2020).

Department for Education. (2017). *Evidence-informed teaching: an evaluation of progress in England*. Ar gael yn: <https://assets.publishing.service.gov.uk/government/> (Darllenwyd: 10 Ebrill 2020).

Department of Education. (2007). *An Evaluation of School Development Planning*. Ar gael yn: https://dera.ioe.ac.uk/11221/7/an-evaluation-of-school-development-planning_Redacted.pdf (Darllenwyd: 2 Ebrill 2020).

Donaldson, G. (2015a) *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru*. Caerdydd: OGL.

Dyfodol. (2017). 'THE WELSH LANGUAGE BEYOND THE SCHOOL GATES' *Dyfodol*. 28 Mawrth. Ar gael yn: <https://www.dyfodol.net/2017/>. (Darllenwyd: 5 Ebrill 2020).

Education Endowment Foundation. (2017). *Improving Literacy in Key Stage 2*. London: Education Endowment Foundation.

Estyn. (2017). Involving all stakeholders in identifying priorities for school improvement. Ar gael yn: <https://www.estyn.gov.wales/effective-practice/> (Darllenwyd: 3 Ebrill 2020).

Estyn. (2018). *Adroddiad arolygiad* [REDACTED] 2018. Ar gael yn: <https://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/> (Darllenwyd: 12 Ebrill 2020).

Fisher, D. et al. (2008). *Content-Area Conversations: How to Plan Discussion-Based Lessons for Diverse Language Learners*. Virginia USA: Association for Supervision and Curriculum Development.

Golwg360. (2015). 'Carwyn Jones yn 'gyndyn i ymyrryd' ar addysg Gymraeg', *Golwg360*. 10 Awst. Ar gael yn: <https://golwg360.cymru/newyddion/cymru/> (Darllenwyd: 6 Ebrill 2020).

Hanover. (2014). *Best Practices for School Improvement Planning*. Ar gael yn: <https://www.hanoverresearch.com/media/> (Darllenwyd: 28 Mawrth 2020).

Harris, A. a Goodhall, J. (2007). *Engaging Parents in Raising Achievement: Do Parents Know They Matter?* Warwick: University of Warwick.

Hattie, J. a Timperley, H. (2007). 'The Power of Feedback', *Review of Educational Research*, 77(1), tud. 81-112.

Jones, M. (2016). *Research briefing: Welsh-medium education and Welsh as a subject*. Caerdydd: Cynulliad Cymru.

Lai, M. K. a Schildkamp, K. (2016). *In-Service Teacher Professional Learning: Use of Assessment in Data-Based Decision-Making*. New York, NY: Routledge. Tud. 77–94.

Llywodraeth Cymru. (2010). *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg*. Ar gael yn: www.cymru.gov.uk (Darllenwyd: 10 Ebrill 2020).

Llywodraeth Cymru. (2014). *School Development Plans*. Ar gael yn: <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/school-development-plans.pdf> (Darllenwyd: 3 Ebrill 2020).

Llywodraeth Cymru. (2017a). *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*. Ar gael yn: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/> (Darllenwyd: 10 Ebrill 2020)

Llywodraeth Cymru. (2017b). *Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol*. Caerdydd: OGL.

Llywodraeth Cymru. (2017c). *Welsh in Education Strategic Plan 2017-2020 GWYNEDD Council*. Ar gael yn: <https://www.gwynedd.llyw.cymru/Welsh-in-Education-Strategic-Plan.pdf> (Darllenwyd: 28 Mawrth 2020).

Llywodraeth Cymru. (2017d). *Welsh in education: Action plan 2017-21*. Ar gael yn: <https://gov.wales/sites/welsh-in-education-action-plan-2017-21.pdf> (Darllenwyd: 1 Ebrill 2020)

Llywodraeth Cymru. (2018). *Fy ysgol leol*. Ar gael yn: <http://mylocalschool.gov.wales/> (Darllenwyd: 10 Ebrill 2020).

Llywodraeth Iwerddon. (1999). *School Development Planning: An Introduction for Second Level Schools*. Ireland: SDPI.

MacBeath, J. a McGlynn, A. (2003). *Self-evaluation: what's in it for schools?* London: Falmer.

MacGilchrist, B. a Mortimore, P. (1997). *The Impact of School Development Plans in Primary Schools*. Psychology. DOI:10.1080/0924345970080202

Masters, G. N. (2010). *Teaching and Learning School Improvement Framework*. Melbourne: Australian Council for Educational Research.

Mugenyi, C. (2015). 'An Examination of Teachers Perceptions of Stakeholders Involvement in School Improvement Planning: The Case of Uganda', *International Journal for Cross-Disciplinary Subjects in Education*, 6(3).

Norton, N. (2014). Cyfweiliad gan Hanover i'r *Founded Programs and School Improvement, Minneapolis Public Schools*, 17 Gorffennaf 2014.

OECD. (2013). *Synergies for Better learning: Putting the learner at the centre*. OECD.

OECD. (2014). *Improving Schools in Wales: An OECD Perspective*. Ar gael yn: <http://www.oecd.org/education/Improving-schools-in-Wales.pdf> (Darllenwyd: 10 Ebrill 2020).

Ofsted. (2010). *Learning: Creative Approaches That Raise Standards*. Manchester: Ofsted.

Owen, S. A. (2017). 'THE WELSH LANGUAGE; BEYOND THE SCHOOL GATES' *Dyfodol*. 28 Mawrth. Ar gael yn: <https://www.dyfodol.net/2017/>. (Darllenwyd: 5 Ebrill 2020).

Park, S. et al. (2013) *Continuous Improvement in Education*. Ar gael yn: <https://www.carnegiefoundation.org/> (Darllenwyd 27 Mawrth 2020).

Phillips, R. 1997. 'Stakeholder theory and a principle of fairness'. *Business Ethics Quarterly*, 7, tud. 51-66.

Poortman, C. L. a Schildkamp, K. (2016). 'Solving student achievement problems with a data use intervention for teachers', *Teaching and Teacher Education*, 60, tud. 425–433.

Poster, C. a Day, Ch. (2018). *Partnership in Education Management*. New York: Routledge

Roberts, A. (2015). 'Carwyn Jones yn 'gyndyn i ymyrryd' ar addysg Gymraeg', *Golwg360*. 10 Awst. Ar gael yn: <https://golwg360.cymru/newyddion/cymru/> (Darllenwyd: 6 Ebrill 2020).

Salim, A. S. (2015). 'The importance of giving students a voice', *The Express Tribune*, 17 Medi 2015.

Schmoker, M. (2014). 'Why Make Reform So Complicated?', *Education Week*, 15 Ionawr.

Snowling, M. J. a Hume, C. (2012). *Interventions for children's language and literacy difficulties*. Ar gael yn: <https://www.ncbi.nlm.nih.gov/pubmed/22268899> (Darllenwyd: 3 Ebrill 2020).

Van Geel, M. et al. (2016). 'Assessing the effects of a school-wide data-based decision-making intervention on student achievement growth in primary schools', *American Educational Research Journal*, 53(2), tud. 360–394.

Waite, S. (2011). 'Teaching and learning outside the classroom: personal values, alternative pedagogies and standards', *Education* 13(3), tud. 65-82.

Wilder, S. (2014). 'Effects of parental involvement on academic achievement: A meta-synthesis' *Educational Review*, 66(3).